Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 MAI 2024**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol GwE 2023-24** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2023-2024 i'r Cyd-Bwyllgor.

## 2.0 Cefndir

**2.1** Fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

**2.2** Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol, fel y cytunwyd yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-2024, gan werthuso'r effaith yn erbyn camau gweithredu a deilliannau am y flwyddyn gyfan.

## 3.0 Ystyriaethau

**3.1** Amgaeir yr Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol sydd yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol ar gyfer 2023-2024:

1. **Gwella Ysgolion** - gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig.

2. **Cwricwlwm ac Asesu** - cefnogi 4 diben y cwricwlwm, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun gan fagu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, gyda thegwch a rhagoriaeth yn ganolog i hyn oll.

3. **Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion trwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sgiliau addysgeg i hybu llwyddiant pob dysgwr, a hynny trwy ddysgu proffesiynol uchelgeisiol.

4. **Arweinyddiaeth** - datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i gefnogi llwyddiant pob dysgwr ar ei lwybr dysgu ei hun, a hynny trwy hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio a chyflawni gwelliant cadarn.

   Parhau i ddatblygu system sy'n hunan wella, ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y cynhwysedd a'r gallu i fod yn dysgu a gwella arferion yn gyson, gan weithio tuag at fod yn sefydliadau sy'n dysgu.

5. **Profiad addysg cadarnhaol i bawb** - wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant, gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy'n hanfodol er mwyn gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd.

   Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.

   Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i'r afael â difreintedd a darparu addysg o'r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol.

6. **Mae Cymraeg yn perthyn i bawb** - rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bawb gyflawni ei botensial.

Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o’r Cwricwlwm i Gymru a’n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu’r iaith fel dinasyddion gweithredol a brwdfrydig.

7. **Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy’n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian.

**3.2** Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol, caiff pob Awdurdod Lleol adroddiad manwl sydd yn rhoi trosolwg lleol penodol, yn dal cynnydd yn erbyn pum maes allweddol, ac yn adnabod y camau nesaf ar y llwybr tuag at welliant:

- Maes Allweddol 1 - Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 - Gwella'r Dysgu a'r Addysgu
- Maes Allweddol 3 - Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 - Cynnydd a Safonau Dysgwyr
- Maes Allweddol 5 - Cymorth a Her i Ysgolion sy'n Destun Pryder

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Appendix 1 - Adroddiad Blynyddol GwE 2023-24

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.